# Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2010

| | |
|---|---|
| **Presennol:** | Y Cynghorwyr W.J.Chorlton; E.G.Davies; Lewis Davies; K.P Hughes; W.T.Hughes; O.Glyn Jones; T.Jones; R.L.Owen; J Arwel Roberts; E Schofield; H.W.Thomas; J.Penri Williams; Selwyn Williams; |
| **Wrth law:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden) (yn gweithredu ar ran y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro)<br><br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro (ar gyfer y drafodaeth ymlaen llaw yn unig)<br><br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Swyddog Cyfathrebu |
| **Ymddiheuriadau:** | Cynghorydd Jim Evans. |

---

Cyn cychwyn y cyfarfod(ydd), dywedodd y Cynghorydd E. Schofield bod y Cyngor Sir ar 11 Mai, yn ei farn o, wrth ystyried y 'Drefn Weithredu', wedi penderfynu pa Bwyllgorau y dylai'r Aelodau heb gysylltiad gydag unrhyw Grwp wasanaethu arnynt. Fodd bynnag, dehongliad y Swyddogion oedd bod y Cyngor wedi penderfynu dirprwyo'r cyfrifoldeb hwnnw i'r Arweinydd mewn cydweithrediad gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol. Hefyd, cafodd wybod y bore hwn, er bod cyfarfod wedi cael ei gynnal, nid oedd Arweinyddion Grwpiau'r Gwrthbleidiau yn rhan o'r broses o ddyrannu'r seddau hynny.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden) bod swyddogion o'r farn bod y Cyngor wedi dirprwyo'r mater i'r Arweinyddion Grwpiau. Gofynnodd am eglurhad gan yr Aelodau ynghylch beth yn union ddigwyddodd yn y cyfarfod hwnnw?

Dywedodd y Cynghorydd H.W. Thomas (Grwp Menai) ei fod wedi cyfarfod gyda'r Arweinydd yn dilyn cyfarfod y Cyngor ond ei fod wedi gwrthod cymryd rhan ac wedi gadael y penderfyniad i Arweinydd y Cyngor. Roedd o'n bryderus iawn bod Arweinydd y Cyngor yn defnyddio ei enw o i gyfiawnhau'r

penderfyniad y daethpwyd iddo. Roedd o'n dymuno ei gwneud hi'n glir nad oedd o wedi cymryd rhan ac nad oedd o'n dymuno cymryd rhan yn hyn.

Cadarnhaodd y Cynghorydd G.W. Roberts,OBE (Môn Ymlaen) bod cyfarfod wedi cael ei gynnal i drafod amryfal faterion a'i fod o hefyd wedi gwrthod cymryd rhan yn y broses o ddyrannu seddi.

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden) am eglurhad gan Arweinyddion y Grwpiau ynghylch a oeddynt yn fodlon i'r Arweinydd wneud y penderfyniad ar eu rhan neu a oeddynt yn anhapus gyda'r broses gyfan ac wedi penderfynu tynnu'n ôl? Awgrymodd y dylid cael gohiriad fel y gallai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro gynghori gan ei bod hi'n bresennol yn ystod y trafodaethau rhwng Arweinyddion y Grwpiau.

Ar yr adeg hon, heriodd y Cynghorydd B. Durkin ran y Swyddog Monitro yn y mater hwn gan ddweud y dylai hi ddatgan diddordeb a pheidio â chymryd rhan yn y trafodaethau heddiw.

**---------------gohiriad----------------**

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro ei bod hi a'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro wedi mynychu'r cyfarfod dan sylw gyda'r Arweinydd ac Arweinyddion Grwpiau'r Gwrthbleidiau i drafod amryfal faterion. Mynegwyd sylwadau ynghylch neilltuo seddau i Aelodau heb gysylltiad gydag unrhyw Grwp. Yn y pen draw, Arweinydd y Cyngor wnaeth y penderfyniad gyda chefnogaeth y Cynghorydd W.J. Chorlton. Roedd y Cynghorwyr H.W. Thomas a G.W. Roberts o'r farn nad oeddynt yn dymuno bod yn rhan o'r penderfyniad ond nad oeddynt yn gwrthwynebu i'r Arweinydd wneud penderfyniadau gyda chefnogaeth y Cynghorydd W.J. Chorlton.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden) ei fod o felly yn fodlon bod y penderfyniad a wnaed gan yr Arweinydd ynghylch dyrannu seddau i Aelodau heb gysylltiad gydag unrhyw Grwp yn ddilys ac y gellid, o'r herwydd, symud ymlaen i benodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion. Gofynnodd i'r Swyddog Monitro gadarnhau o bersbectif cyfreithiol a oedd ei ddehongliad o yn gywir neu a oedd hi'n dymuno rhoddi cyngor neu ganllawiau gwahanol i'r aelodau.

Mewn ymateb dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro ei bod hi'n cytuno gyda'r dehongliad hwnnw ac nad oedd hi'n dymuno rhoddi cyngor cyfreithiol gwahanol. Cytunodd ei bod hi mewn trefn i'r Pwyllgorau benodi eu Cadeiryddion a'u His-Gadeiryddion.

Cadarnhaodd y Cynghorydd W.J. Chorlton atgof y Swyddog Monitro o'r digwyddiadau ar ffaith ei fod wedi cefnogi'r penderfyniadau a wnaed gan yr Arweinydd er nad oedd o wedi bod yn rhan o'r broses wirioneddol o ddewis aelodau.

Roedd y Cynghorydd B. Durkin yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei fod o'n bryderus iawn ynghylch yr hyn a glywodd heddiw oherwydd nid oedd rhywun yn dweud y gwir. Dywedwyd wrtho'n ddiamwys gan yr Arweinydd y gwnaed y penderfyniad gan yr holl Arweinwyr Grwp. Yn ogystal, dywedodd yr Arweinydd wrtho pam yr oedd wedi cael ei dynnu oddi ar y Pwyllgor Cynllunio a hynny oherwydd ei fod wedi herio gormod o faterion ac oherwydd ei gwyn yn erbyn Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro. Gofynnodd a ddylai hi fod yn rhoi gwybod heddiw i'r Aelodau am yr hyn ddigwyddodd ac awgrymodd y dylai ddatgan diddordeb a pheidio â chymryd unrhyw ran yn y trafodaethau heddiw. Roedd Arweinyddion y Grwpiau wedi dweud nad oedd yr hyn a ddywedodd Arweinydd y Cyngor yn wir ac roedd hyn yn mynd i graidd bod yn agored, yn onest ac yn dryloyw. Os oedd hyn yn wir, gwahoddodd Arweinydd y Cyngor i ymddiswyddo.

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden) ei fod yn nodi'r sylwadau a wnaed ac y byddai'r rhain yn cael eu dwyn at sylw'r Arweinydd ar ei ddychweliad fel y gallai ymateb.

Gofynnodd y Cynghorydd E. Schofield eto a oedd y Cyngor wedi cyrraedd penderfyniad ar 11 Mai yn hyn o beth?

Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro ei bod wedi astudio'r trawsgrifiad o'r eitem benodol hon ac er bod rhywfaint o anghysondeb, roedd hi o'r farn ei fod, yn ei gyfanrwydd, yn amlwg na fyddai'r Cyngor yn gwneud penderfyniad ac y byddai'n cael ei ohirio ar gyfer ei drafod a'i benderfynu arno yng nghyfarfod yr Arweinyddion Grwpiau a'i bod hi yn hapus gyda'i hatgof hi o'r digwyddiadau.

## 1. Datganiad o ddiddordeb

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb gan Aelod na Swyddog.

## 2. Cadeirydd

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd J. Arwel Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor  hwn.**

Diolchodd y Cynghorydd Roberts i'r Pwyllgor am ymddiried ynddo ac am yr anrhydedd o gael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor.

## 3. Is-Gadeirydd

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd O. Glyn Jones yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor.**

(Roedd y Cynghorydd E. Schofield yn dymuno nodi nad oedd o'n fodlon gwasanaethu fel Aelod heb gysylltiad gydag unrhyw Grwp ar y Pwyllgor hwn).

**Y Cynghorydd K.P Hughes**
**Fel Cyn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio**